Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 14 Gorffennaf 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12324

15(v4)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 2 a 6 gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar ôl cwestiwn 2.

2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

Dechreuodd yr eitem am 14.19

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Cynllun Rheoli'r Coronafeirws

Dechreuodd yr eitem am 15.07

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 15.53 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Llywydd.

4 Cwestiynau Amserol

Ni chafwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 16.05

Gwnaeth **Elin Jones** ddatganiad am - Cofio Elystan Morgan.

Gwnaeth **Jane Dodds** ddatganiad am - Nodi 50 mlynedd ers agor llwybr troed Clawdd Offa.

Gwnaeth **Joel James** ddatganiad am - Mae Eglwys Edward Gyffeswr yn y Rhath yn dathlu can mlynedd ers gosod ei charreg sylfaen.

Gwnaeth **Cefin Campbell** ddatganiad am - Dathlu 50 mlwyddiant y Mudiad Meithrin.

6 Cynnig i sefydlu pwyllgor o dan Reol Sefydlog 16.1: Pwyllgor y Llywydd

Dechreuodd yr eitem am 16.12

NDM7765 **Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1, yn sefydlu Pwyllgor y Llywydd i gyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 18B.2.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

7 Cynnig i ethol aelodau i bwyllgor: Pwyllgor y Llywydd

Dechreuodd yr eitem am 16.13

NDM7769 **Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3 a Rheol Sefydlog 18.B4:

Yn ethol y canlynol yn aelodau o Bwyllgor y Llywydd:

a) Y Dirprwy Lywydd yn Gadeirydd y Pwyllgor;b) Peredur Owen Griffiths (cadeirydd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19); ac) Joyce Watson (Llafur Cymru), Janet Finch-Saunders (Ceidwadwyr Cymreig) a Rhys ab Owen (Plaid Cymru.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

8 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod – Bil gofal preswyl i blant

Dechreuodd yr eitem am 16.13

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

NDM7723 Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar reoleiddio, monitro a chomisiynu gofal preswyl i blant, gan gynnwys plant y mae angen gofal iechyd meddwl cleifion mewnol arnynt, a gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu neu niwroamrywiaeth arall yng Nghymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) gwella'r broses o gomisiynu a darparu lleoliadau gofal preswyl i blant yng Nghymru, gan gynnwys cydgysylltu a darparu ar draws awdurdodau lleol i sicrhau bod lleoliadau addas yn fwy digonol;

b) gwella'r broses o reoleiddio a monitro gofal preswyl a lleoliadau maethu, gan gynnwys alinio â gwasanaethau eraill fel addysg, tai a digartrefedd, ac iechyd;

c) dileu'r ddarpariaeth ar gyfer darparwyr sy'n gwneud elw yn y sector gofal preswyl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a niwroamrywiaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
27	15	14	56

Derbyniwyd y cynnig.

9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Ymchwiliad cyhoeddus annibynnol i'r ffordd yr ymdriniwyd â phandemig COVID-19

Dechreuodd yr eitem am 16.39

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

NDM7768 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw am ymchwiliad cyhoeddus annibynnol i'r ffordd yr ymdriniwyd â phandemig COVID-19 yng Nghymru.

Cyd-gyflwynwr:
Sian Gwenllian (Arfon)

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
27	0	29	56

Gwrthodwyd y cynnig.

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 17.22 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Dirprwy Lywydd.

10 Dadl Plaid Cymru - Prydau ysgol am ddim

Dechreuodd yr eitem am 17.41

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM7767 Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cyhoeddi sawl adroddiad yn ddiweddar gan Sefydliad Bevan a Chlymblaid Gwrthdlodi Cymru ar ehangu'r ddarpariaeth o brydau ysgol am ddim a graddau tlodi yng Nghymru.

2. Yn nodi bod llythyr a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Glymblaid Gwrthdlodi Cymru ac a lofnodwyd gan 10 sefydliad gwrthdlodi yn galw ar Lywodraeth newydd Cymru i wneud ehangu prydau ysgol am ddim yn flaenoriaeth.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim fel bod pob disgybl ysgol mewn teulu sy'n cael credyd cynhwysol neu fudd-dal cyfatebol yn gymwys;

b) ymestyn hawliau prydau ysgol am ddim yn barhaol i ddisgyblion mewn teuluoedd nad yw cyllid cyhoeddus ar gael iddynt;

c) cyhoeddi llinell amser ar gyfer gweithredu prydau ysgol am ddim i bawb fesul cam er mwyn gwarantu cinio ysgol maethlon o ffynonellau lleol i bob disgybl ysgol.

Sefydliad Bevan: Expanding the provision of free school meals in Wales (Saesneg yn unig)

Sefydliad Bevan: Expanding the eligibility criteria for free school meals (Saesneg yn unig)

Sefydliad Bevan: Snapshot of poverty in spring 2021 (Saesneg yn unig)

Mae copi o'r llythyr a gaiff ei grybwyll ym mhwynt 2 o'r cynnig wedi cael ei anfon at Aelodau o'r Senedd.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
13	0	43	56

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru:

a) wedi cychwyn adolygu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn unol â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, gyda'r bwriad o ymestyn yr hawl, mae data dros dro y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn dangos bod

108,203 o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, cynnydd o bron i 18,000 ers CYBLD 2020;

b) wedi darparu £60 miliwn ychwanegol ers dechrau'r pandemig i ddarparu prydau ysgol am ddim ychwanegol yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21 ac wedi cael cydnabyddiaeth gan y Sefydliad Polisi Addysg am ei chymorth i deuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y pandemig;

c) yn mynd i ddarparu £23.3 miliwn ychwanegol i ymestyn prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol ym mlwyddyn ariannol 2021-22, gan sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf hael yn y DU; ac

d) yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu'r unig gynllun cyffredinol i roi brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd yn y DU.

Rhaglen lywodraethu

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	28	56

Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Llywydd ei bleidlais fwrw i bleidleisio yn erbyn y gwelliant, yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(ii).

Gwrthodwyd gwelliant 1.

Gwelliant 2 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ym mhwynt 3, dileu is-bwynt (c).

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
43	0	13	56

Derbyniwyd gwelliant 2.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:

NDM7767 Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cyhoeddi sawl adroddiad yn ddiweddar gan Sefydliad Bevan a Chlymblaid Gwrthdlodi Cymru ar ehangu'r ddarpariaeth o brydau ysgol am ddim a graddau tlodi yng Nghymru.

2. Yn nodi bod llythyr a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Glymblaid Gwrthdlodi Cymru ac a lofnodwyd gan 10 sefydliad gwrthdlodi yn galw ar Lywodraeth newydd Cymru i wneud ehangu prydau ysgol am ddim yn flaenoriaeth.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim fel bod pob disgybl ysgol mewn teulu sy'n cael credyd cynhwysol neu fudd-dal cyfatebol yn gymwys;

b) ymestyn hawliau prydau ysgol am ddim yn barhaol i ddisgyblion mewn teuluoedd nad yw cyllid cyhoeddus ar gael iddynt;

Sefydliad Bevan: Expanding the provision of free school meals in Wales (Saesneg yn unig)

Sefydliad Bevan: Expanding the eligibility criteria for free school meals (Saesneg yn unig)

Sefydliad Bevan: Snapshot of poverty in spring 2021 (Saesneg yn unig)

Mae copi o'r llythyr a gaiff ei grybwyll ym mhwynt 2 o'r cynnig wedi cael ei anfon at Aelodau o'r Senedd.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
10	10	36	56

Gwrthodwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

11 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 18.31 cafodd y trafodion eu hatal dros dro i ganiatau egwyl cyn y Cyfnod Pleidleisio.

Dechreuodd yr eitem am 18.42

Crynodeb o Bleidleisiau

12 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.47

NDM7766 Buffy Williams (Rhondda)

Cymorth i fenywod sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma ôl-enedigol.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.11

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Medi 2021